***Cyngor Sir Penfro***
***Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017–2033***
***ARCHWILIAD***
**Pembrokeshire County Council**
**Revised Local Development Plan 2017–2033**
**EXAMINATION**

*Arolygwyr / Inspectors:*
**Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI**
**Paul Selby BEng (Anrh) MSc MRTPI**

*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*
**Deborah Williamson**

***ff*/t: 01437 775545** e: **programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

8 Mai 2026

Annwyl Syr/Madam

**Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro 2**

Yn dilyn fy llythyr cyflwyniadol dyddiedig 8 Rhagfyr 2025, ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am archwiliad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Penfro 2.

Mae'r Arolygwyr wedi galw cyfarfod archwiliadol i drafod effeithiau posibl y Cynllun ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac afonol. Mae hyn yn dilyn gohebiaeth gychwynnol rhwng yr Arolygwyr a Chyngor Sir Penfro, gan gynnwys llythyr yn ddiweddar gan yr Arolygwyr yn amlinellu eu pryderon ynghylch y mater hwn gan ei fod yn effeithio ar gadernid y Cynllun. Mae'r holl ohebiaeth ar wefan yr Archwiliad: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwiliad-2025.

Cynhelir y cyfarfod archwiliadol yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP am **10.00 ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026**. Mae'r cyfarfod yn agored i holl aelodau'r cyhoedd ei wylio, ond nodwch nad yw'n gyfle i chi drafod y sylwadau a gyflwynwyd gennych. Mae angen i'r Arolygwyr drafod eu pryderon gyda'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfarfod hwn, a bydd yn drafodaeth strwythuredig yn dilyn agenda a fydd yn cael ei chyhoeddi ymlaen llaw ar wefan yr Archwiliad.

Os hoffech chi wylio'r cyfarfod, rhowch wybod i mi erbyn 5pm ddydd Gwener 29 Mai 2026 drwy'r cyfeiriad e-bost uchod. Cyfeiriwch at eich rhif adnabod y sawl a gyflwynodd sylwadau, fel y'i dangosir uchod.

Bydd yr Arolygwyr yn cyhoeddi nodyn o'r cyfarfod archwiliadol ac yn rhoi cyngor ar gamau nesaf yr archwiliad CDLl, yn fuan wedi'r cyfarfod. Ewch i'r wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cyfarfod archwiliadol, rhowch wybod i mi.

Yn gywir
Deborah Williamson
Swyddog Rhaglen